Mathemateg
5 i 9

Siapiau Rhaffau

- Siâp 2D



Trosolwg

Gallai'r gweithgaredd yma fod yn gyflwyniad gwych i siapiau 2D neu fel tasg adolygu. Mae'n galluogi disgyblion i ddangos eu bod yn adnabod amrywiaeth o siapiau a hefyd meithrin sgiliau rhyngbersonol fel cyfathrebu, arweinyddiaeth a meithrin tîm.

Adnoddau

- 1 neu fwy o raffau hir wedi'u clymu yn gylch
- Mygydau ar gyfer o leiaf 1 tîm o 6 disgybl
- Camera (dewisol)

Gweithgaredd

1. Mae o leiaf 6 disgybl yn sefyll yn agos at ei gilydd gan ddal y cylch rhaffau gyda'u dwy law.
2. Mae pob disgybl ond un o amgylch y cylch rhaffau yn gwisgo mwgwd.
3. Y plentyn sydd ddim yn gwisgo mwgwd ydi'r unig berson sy'n cael rhoi cyfarwyddiadau.
4. Heriwch y grŵp i greu amrywiaeth o siapiau 2-D, o sgwariau i bentagonau i drionglau isosgeles, yn dibynnu ar eu gallu.
5. Trafodwch nodweddion a phriodweddau pob siâp sy'n cael ei wneud.

Canlyniadau a Awgrymir ar gyfer Dysgu a Chwarae

Rydyn ni'n deall y byddwch chi, fel addysgwr, yn teilwra'r gweithgaredd yma i anghenion dysgu eich myfyrwyr chi. Dyma rai o'r canlyniadau dysgu y mae ymarferyddion eraill wedi defnyddio'r gweithgaredd yma ar gyfer eu cyrraedd.

- Deall priodweddau siapiau 2D

Isod, rydyn ni wedi cynnwys rhai syniadau y mae addysgwyr eraill wedi'u defnyddio ar y cyd â'r gweithgaredd yma i bontio'r bwlch rhwng y tu mewn a'r awyr agored ar gyfer eu myfyrwyr.

Maes pwnc	Testun	Syniadau ar gyfer Archwilio Pellach
Llythrennedd ac Iaith	Cyfarwyddiadau	Ysgrifennwch gyfarwyddiadau ar sut i greu gwahanol siapiau o raffau
	Llawysgrifen	Defnyddiwch yr un dull i ymarfer ffurfio llythrennau
Mathemateg	Siâp/onglau	Heriwch y grŵp i greu siapiau afreolaidd neu onglau o wahanol faint
Celf	Symbolau a phatrymau	Defnyddiwch yr un dull i greu symbolau neu waith celf arall

Learning through Landscapes

Os hoffech chi ddatblygu eich gwybodaeth a'ch sgiliau dysgu awyr agored, edrychwch ar ein hamrywiaeth ni o gyrsiau hyfforddi: **ltl.org.uk/outdoor-learning-training**

© Mae'r daflen weithgarwch yma wedi cael ei chreu gan Ymddiriedolaeth Learning through Landscapes. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr rhif 803270 ac yn yr Alban SCO38890